# CYNGOR SIR CEREDIGION

## GWASANAETH YSGOLION

## CORFF LLYWODRAETHU
## YSGOL GYNRADD MYNACH

## 4.15 – 6.15 PM, 16 MAWRTH 2026

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol (Hybrid):** | Y Cynghorydd Gareth Jones (Cadeirydd), Bethan James, Dafydd Morris-Jones, Bryn Shepherd, Clare Raw, Rhydian Davies, Teleri Lewis, Carl Cater, Joyce George (Pennaeth). |
| **Clerc:** | Pauline Lucas |

| Cofnod o drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|---|
| **1** | **YMDDIHEURIADAU:** | | |
| | Roedd gan y cyfarfod gworwm felly aethpwyd ati i drafod y materion ar yr agenda. | | |
| **2** | **DATGELU BUDDIANT PERSONOL / CYFRINACHEDD:**<br>Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r canlynol: | | |
| | a) | yr angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethu, lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod; | |
| | b) | byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi; | |
| | c) | bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus. | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi'r uchod. | | |
| **3i** | **COFNODION:** | | |
| | Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17.11.2025. Byddent yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd a byddai copi yn cael ei ddychwelyd i governors@ceredigion.gov.uk | | |
| **3ii** | **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION:** | | |
| | Doedd dim materion i'w trafod. | | |
| **3iii** | **AELODAETH Y CORFF LLYWODRAETHU** | | |
| | PENDERFYNWYD nodi'r canlynol:<br>• Bod swydd wag ar gyfer Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol a gofynnwyd i'r | | |

| | Cofnod o drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | Gweithr edir gan*: |
|---|---|---|
| | Aelodau anfon unrhyw enwau a awgrymir at y Pennaeth.<br>• Y byddai Teleri Lewis yn gorffen fel Rhiant-lywodraethwr gan fod y teulu yn symud o'r ardal. | |
| 4 | **COFNODION Y PWYLLGORAU:** | |
| | Nodwyd nad oedd yr un cyfarfod wedi'i gynnal ers y cyfarfod diwethaf. | |
| 5 | **CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH AR GYFER CEFNOGI LLYWODRAETHWYR:** | |
| | Roedd copïau o'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer clercio cyrff llywodraethu wedi'u dosbarthu i'r Aelodau yn flaenorol. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**: | |
| | Prynu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Clercio Cyrff Llywodraethu ym mlwyddyn ariannol 2026/2027 am gost o £1,268.88. | |
| | Pennu'r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethu yn 2026/2027:<br>• Tymor yr haf 2026: 18.06.26;<br>• Tymor yr hydref 2026: 16.11.26;<br>• Tymor y gwanwyn 2027: 15.03.27. | |
| 6 | **ADRODDIAD Y PENNAETH:** | |
| | Roedd copi o adroddiad y Pennaeth eisoes wedi'i ddarparu i'r aelodau. Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol:<br>**Data Disgyblion**: Mae 42 o ddisgyblion ar y gofrestr wedi'u trefnu mewn dau ddosbarth.<br>Mae 50% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg.<br>Mae 10% (4 disgybl) yn derbyn prydau ysgol am ddim.<br>Mae 10% (4 disgybl) ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>**Cynllun Datblygu'r Ysgol**: **Pa mor effeithiol yw'r strategaethau addysgu presennol wrth ddatblygu rhuglder a hyder disgyblion mewn mathemateg pen**?<br>Caiff strategaethau mathemateg pen eu cyflwyno dair gwaith yr wythnos. Mae staff yn gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion yn ôl gallu er mwyn sicrhau cefnogaeth a her briodol. Caiff sgiliau mathemateg pen eu hadolygu yn rheolaidd i atgyfnerthu cysyniadau allweddol. Mae rhai disgyblion yn derbyn cymorth wedi'i dargedu. Gwelwyd gwelliant yn hyder a rhuglder disgyblion, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn mwynhau mathemateg. Mae angen gwaith pellach i gryfhau gwybodaeth rhai disgyblion o dablau lluosi a sgiliau rhif sylfaenol. Cafodd Bethan a Rhiannon gyfle i ymweld ag Ysgol Plascrug i weld sut y gallai cynllunio effeithiol godi safonau a sut maen nhw'n herio disgyblion (mwy abl a thalentog).<br>**Sut gall rhaglen ddarllen strwythuredig ar draws pob grŵp blwyddyn** | |

| Cofnod o drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| | **ddatblygu sgiliau darllen disgyblion wrth feithrin mwynhad?**<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau i wella ffoneg o fewn y Cyfnod Sylfaen er mwyn gwella sgiliau darllen. Mae addysgu ffoneg wedi'i dargedu wedi'i gyflwyno ac mae hyn yn profi i fod yn llwyddiannus. Mae continwwm darllen ysgol gyfan yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o'r disgwyliadau ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Mae angen cynyddu darpariaeth ffoneg Cymraeg o fewn y Cyfnod Sylfaen a ffoneg Saesneg wedi'i thargedu ym Mlwyddyn 3 a 4. Bydd Ymgynghorydd y Sir yn monitro'r gwaith hwn ar 21 Ebrill, a gwahoddwyd y llywodraethwyr i fynychu.<br><br>Mae Rhiannon Carruthers wedi bod yn rhan o'r cynllun darllen 'Caru Darllen', sy'n amlygu pwysigrwydd i ddisgyblion fwynhau llyfrau a gwerth staff ac oedolion eraill yn darllen iddynt, gan feithrin cariad at ddarllen ac annog mwynhad o lyfrau, sydd yn ei dro yn helpu i godi safonau. Mae disgyblion wedi cael cyfle i astudio llyfrau penodol a chwrdd â'r awduron, menter sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn.<br><br>**Pa strategaethau y gall ysgolion eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion sy'n absennol yn aml neu mewn perygl o dangyflawni?**<br><br>Bu gwelliant mewn presenoldeb y tymor hwn, gyda disgyblion wedi'u targedu yn gwneud ymdrech i fynychu ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at wersi a gweithgareddau. Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniad i weithio'n agos gyda rhieni, cynnig cymorth, a gwrando'n ofalus ar eu pryderon. Mae rhai disgyblion wedi dilyn rhaglenni wedi'u targedu sy'n canolbwyntio ar anghenion sy'n gysylltiedig â gorbryder, sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar bresenoldeb a lles. Rydym yn gobeithio gweld gwelliannau pellach yn ystod y tymor a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhieni a disgyblion.<br><br>**Datblygu a gwella ardaloedd awyr agored yr ysgol i wella lles, ymddygiad, iechyd corfforol a chyfranogiad disgyblion:**<br><br>Mae'r ysgol wedi dechrau blaenoriaethu datblygu a gwella ei hardaloedd awyr agored i wella lles, ymddygiad cadarnhaol, iechyd corfforol ac ymgysylltiad disgyblion. Mae llais y disgybl wedi bod yn ganolog i'r broses, gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cael y cyfle i helpu i gynllunio'r ardal a rhannu syniadau ynghylch yr hyn yr hoffent ei weld yn cael ei ddatblygu. Mae'r Pennaeth wedi bod yn gweithio'n agos gyda PTP i fwrw ymlaen â'r cynlluniau, ac mae'n hyderus y bydd y gwaith yn dechrau yn ystod gwyliau'r Pasg.<br><br>**ADY**: Mae gan 4 disgybl Gynllun Datblygu Unigol. Cynhelir ymyrraeth yn yr ystafell ddosbarth ac mae'n gweithio'n dda.<br><br>Mae **presenoldeb** yn dda, sef 95.17%, ac mae disgyblion PYD yn cael eu cefnogi i gynyddu eu presenoldeb.<br><br>**Staffio**: Nodwyd y byddai Fflur Griffiths yn dychwelyd i'w swydd fel Cynorthwyydd Addysgu yn dilyn ei chyfnod mamolaeth ac wedi gofyn i ddychwelyd am 2 ddiwrnod yr wythnos. PENDERFYNWYD peidio a cytuno i'r cais. Byddai Ffion Banks yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos.<br><br>Nodwyd ymhellach fod Bethan James wedi gofyn am 9 wythnos o absenoldeb di-dâl o fis Ionawr 2027. PENDERFYNWYD cytuno i'r cais a chaniatáu i'r Pennaeth wneud trefniadau amgen.<br><br>**Cyllid**: Nodwyd y byddai gwarged rhagweladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | |

| Cofnod o drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| | bresennol o £80,412 a gwarged rhagweladwy ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/2027 o £58,718. Rhagwelwyd y byddai nifer y disgyblion yn gostwng, a fyddai'n cael effaith negyddol ar y gyllideb.<br>**Diogelu:** Ni chafwyd unrhyw adroddiadau o fwlio yn ystod y tymor blaenorol. Roedd y Cadeirydd wedi cwblhau Hyfforddiant Diogelu Grŵp B.<br>**Gweithgareddau**: Llongyfarchwyd y disgyblion ar eu llwyddiannau niferus. | |
| **7** | **HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:** | |
| | Nodwyd bod Fforwm y Llywodraethwyr wedi'i gynnal ar 25/02/2026 trwy Teams.<br>Hysbysebwyd gofynion newydd ar gyfer hyfforddiant diogelu i Lywodraethwyr.<br>Nodwyd bod aelodau yn pryderu ynghylch faint o hyfforddiant y disgwylir iddynt ei gwblhau, a gallai hyn atal rhai pobl rhag dod yn Llywodraethwyr.<br>Nid oedd ail-wneud yr hyfforddiant yn flynyddol yn angenrheidiol.<br>Roedd rhywfaint o'r hyfforddiant yn amherthnasol i'w rôl.<br>Nid oedd rhai llywodraethwyr yn derbyn y wybodaeth. | |
| **8i** | **POLISÏAU – DOGFENNAU STATUDOL:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi bod y Dogfennau Statudol canlynol wedi cael eu hadolygu:<br>**I'w hadolygu'n flynyddol:**<br>Y Polisi Derbyn<br>Iechyd a Diogelwch gan gynnwys yr Archwiliad<br>Y Cynllunio Pontio<br>**Dogfennau i'w hadolygu os oes newidiadau wedi'u gwneud:**<br>Y Cynllun Argyfyngau a Chydnerthedd a'r Polisi Llwyrgloi<br>Cynllun Gweithredu yn dilyn Arolwg o'r Ysgol<br>Cofrestr Disgyblion<br>Lwfansau Llywodraethwyr<br>Offeryn Llywodraethu<br>Cofnodion a Phapurau Pwyllgorau a Chyfarfodydd y Corff Llywodraethu<br>Cynllun Datblygu'r Llywodraethwyr. | |
| **8ii** | **POLISI DATBLYGIAD PROFFESIYNOL**: | |
| | Roedd y polisi eisoes wedi bod ar gael i'r Aelodau ar Teams. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r polisi.** | |
| **8iii** | **POLISI RHEOLI NEWID SEFYDLIADOL** | |

| Cofnod o drafodaethau'r Corff Llywodraethu: | | Gweithredir gan*: |
|---|---|---|
| | Roedd y polisi eisoes wedi bod ar gael i'r Aelodau ar Teams. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r polisi**. | |
| **8iv** | **POLISI LLWYRGLOI:** | |
| | Roedd y polisi eisoes wedi bod ar gael i'r Aelodau ar Teams. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r polisi.** | |
| **9** | **GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:** | |
| | Roedd llythyr wedi dod i law ac wedi cael ei drafod yn adroddiad y Pennaeth. | |
| **10** | **UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD YMLAEN LLAW:** | |
| | Doedd dim materion i'w trafod. | |
| **11** | **DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF:** | |
| | **PENDERFYNWYD** nodi y byddai cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu Llawn yn cael ei gynnal ar 18.06.2026 am 4.15pm. | |

PL
19:03:2026